

ATODIAD 1 RHAN A

4.2 Y Fframwaith Polisi

Mae'r Fframwaith Polisi yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
- Cynllun Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Datblygu Economaidd
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Iaith – a Polisi Iaith
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuencid
- Strategaeth Tai
- Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
- Polisi Tal
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.
- Polisi Indemniadau
- Polisi Gamblo
- Polisi Trwyddedu

4.6 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn

Dim ond y Cyngor Llawn a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

- 4.6.1 mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;
- 4.6.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r y Fframwaith Polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gweinidogion Cymru o ran unrhyw Drosglwyddiad Tir ar gyfer Tai;
- 4.6.3 yn amodol ar y weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth arfer Swyddogaeth Weithredol sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle y mae'r penderfynwr yn teimlo y dylid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb;
- 4.6.4 penodi a diswyddo'r Arweinydd;
- 4.6.5 cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai y dirprwywyd y penodiadau gan y Cyngor;
- 4.6.6 cyflawni swyddogaethau'r Cyngor ynghŷn a cyd-bwyllgorau corfforedig, gan gynnwys gwneud cais Cyd-bwyllgor Corfforedig a rhoi cydsyniad i reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n cael eu gwneud

- 4.6.7 newid enw'r ardal;
- 4.6.8 gwneud neu gadarnhau penodiad neu ddiswyddo Prif Weithredwr;
- 4.6.9 gwneud, gwella, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau, a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Ffiliau Personol;
- 4.6.10 yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol a amlinellir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet; a
- 4.6.11 pob mater y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, caniatâu disgowntiau neu godi premiwm Treth Cyngor , penderfynu ar y lefel (ac unrhyw newid yn lefel) tâl a delir i Brif Swyddog a chymeradwyo y datganiad polisi tâl;
- 4.6.12 cymeradwyo, adolygu a diwygio Cynllun Deisebau'r Cyngor
- 4.6.13 cymeradwyo, adolygu a diwygio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor
- 4.6.14 derbyn a chymeradwyo adroddiad blynyddol ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion perfformiad;
- 4.6.15 adolygu, cymeradwyo a diwygio amcanion llesiant y Cyngor yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005 a'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- 4.6.16 ystyried adroddiadau'r Prif Weithredwr a baratoir yn unol ag adran 54(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud;
- 4.6.17 ystyried adroddiadau blynyddol a gafwyd gan y Pwyllgor Safonau, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud; a
- 4.6.18 Cyflawni swyddogaethau a gyfeirir i'r Cyngor Llawn gan Arweiniad Statudol
- 4.6.19 Yn gyfrifol am weithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Adran 93 - Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel. Adran 96Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

ATODIAD 1

RHAN B

Adran 13 Atodiad 2 – Materion Cabinet

Yn gyfrifol am weithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Adran 92 Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel.